Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

"Byddwn yn gwario eich arian yn ddoeth"

# Polisi Grantiau

## Cyflwyniad

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru y pwerau i ddyfarnu grantiau trosedd ac anhrefn i unrhyw sefydliad a phrosiectau sydd, ym marn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn sicrhau, neu'n cyfrannu at sicrhau, leihad mewn troseddau ac anhrefn yn ardal yr heddlu.[1]

Hefyd, mae ganddo'r pwerau i ddarparu neu drefnu darparu'r canlynol:

a) Gwasanaethau a fydd, ym marn y Comisiynydd, yn sicrhau, neu'n cyfrannu at sicrhau, leihad mewn troseddau ac anhrefn yn ardal yr heddlu
b) Gwasanaethau y mae'r Comisiynydd yn bwriadu iddynt helpu dioddefwyr, tystion neu bobl eraill y mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi effeithio arnynt
c) Gwasanaethau o fath a nodir mewn gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.[2]

Wrth drefnu darparu gwasanaeth, gall y Comisiynydd roi grantiau mewn cysylltiad â'r trefniant. Gall grant fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau (gan gynnwys amodau sy'n ymwneud ag ad-daliadau) y mae'r Comisiynydd yn eu hystyried yn briodol.

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am arian cyhoeddus ac am ddosbarthu'r arian hwn i'w reoli yn unol â deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, y Deyrnas Unedig a Chymru, safonau priodol a threfniadau llywodraethu mewnol Heddlu De Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r ffordd y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn arfer y pwerau a'r cyfrifoldebau hynny.

## Diben

Diben y Polisi hwn yw gwneud y canlynol:

- helpu'r Comisiynydd i gyflawni gyfrifoldebau statudol a'r blaenoriaethau a'r canlyniadau yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu;
- sicrhau y caiff grantiau eu dyfarnu a'u rheoli mewn modd cyson, tryloyw a theg;
- sicrhau atebolrwydd clir am ddefnyddio arian cyhoeddus; • sicrhau bod telerau ac amodau cyllid yn briodol ac yn gymesur;

[1] Adran 9 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

[2] Adran 143 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

- cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol.

## Cwmpas

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i'r Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd a'r holl staff a thrydydd partïon sy'n gweithredu ar ran y Comisiynydd.

Mae'r Polisi hwn yn gymwys i roi grantiau gostwng troseddau ac anhrefn a grantiau i helpu'r rhai y mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi effeithio arnynt, ac eithrio mewn achosion lle y caiff y gwaith o drefnu darpariaeth gwasanaeth ei gyflawni drwy Reolau Sefydlog Contract y Comisiynydd.

Mae'r Polisi a'r Canllawiau yn gweithredu ochr yn ochr â'r Llawlyfr Llywodraethu gan gynnwys y Rheolau Sefydlog Contract a'r Cod Ymarfer Rheoli Ariannol, a'r nod yw cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Cyflawni Canlyniadau. Nid ydynt yn dileu'r gofyniad i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad deddfwriaethol.

## Cyfrifoldebau

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ddyfarnu pob grant a'r penderfyniad i ymrwymo i gytundebau grant.

Y Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwariant yn gyfreithlon ac o fewn y fframwaith llywodraethu y mae'r Comisiynydd wedi cytuno arno; a bod holl staff y Comisiynydd a thrydydd partïon sy'n gweithredu ar ran y Comisiynydd yn cydymffurfio â'r Polisi hwn.

Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyfanswm yr arian a ddyfernir drwy grantiau o fewn y swm a ddyrennir yn flynyddol o fewn y gyllideb; ac ynghyd â'r Swyddog Monitro, sicrhau bod gwariant yn gyfreithlon.

Arweinwyr Polisi Arbenigol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau arbenigol yn eu maes, wedi'u cefnogi gan y Swyddog Partneriaeth a Chyllid.

Y Swyddog Partneriaeth a Chyllid sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofrestr o gytundebau grant ac arian a ddyfarnwyd;
- cynnal gweithdrefnau cadarn a chyfredol i gefnogi'r gwaith o ddyfarnu a rheoli grantiau yn gyson;
- cynnal gweithdrefnau sicrwydd i ddiogelu arian cyhoeddus a sicrhau atebolrwydd a thryloywder;
- cefnogi'r holl ofynion adrodd a chyhoeddi.

## Polisi

Gall y Comisiynydd ddyfarnu grantiau i'w defnyddio gan unrhyw sefydliad neu brosiect, naill ai'n gyffredinol neu at ddiben penodol, i ostwng troseddau ac anhrefn neu helpu dioddefwyr a thystion troseddau neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhellach.

Diben unrhyw grant fydd cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau a nodwyd yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Throseddu y Comisiynydd.

Y Comisiynydd, neu aelod o staff a enwebwyd yn y Cynllun Dirprwyo ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol i ddyfarnu grant.

# Egwyddorion cyffredinol

## Ffocws ar ganlyniadau

Cydnabyddir bod rhoi grantiau yn swyddogaeth strategol, sy'n cael ei hwyluso a'i chyflawni yn unol â'r cylch gweithgarwch a amlinellir yn y Fframwaith ar gyfer Cyflawni Canlyniadau, sy'n galluogi'r Comisiynydd i sicrhau canlyniadau ar gyfer cymunedau yn Ne Cymru a fydd yn diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau, a hefyd sicrhau gwerth am arian.

Bydd gan bob dyfarniad grant ganlyniadau sydd wedi'u diffinio'n glir a gaiff eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau bod canlyniadau yn cael eu cyflawni fel y cytunwyd.

## Cydweithredu a chydweithio â'n partneriaid

Rhoddir ystyriaeth i'r gwaith a wneir gan bartneriaid wrth ddatblygu cyfleoedd grantiau er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau bod ein rhaglenni grant yn ategu neu'n gwella gwaith ein partneriaid lle y bo'n briodol.

Lle y caiff nodau a chanlyniadau cyffredin eu cydnabod, a lle nodir y gall gweithio mewn partneriaeth ychwanegu gwerth, gellir datblygu cyfleoedd grantiau a'u rheoli ar y cyd â'n partneriaid i gynyddu adnoddau, arbenigedd a budd i'r gymuned. Bydd Cytundeb Partneriaeth yn nodi canlyniadau clir ac yn nodi rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau pob partner.

## Cyfathrebu, ymgysylltu ac ymgynghori

Ymgynghorir â rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd, yn ystod y gwaith o ddatblygu, rheoli a gwerthuso cynllun grant er mwyn sicrhau y caiff anghenion y Gymuned eu deall a'u diwallu yn briodol ac yn gywir.

Caiff cyfleoedd grantiau eu datblygu yn unol â'r Fframwaith Comisiynu, a chânt eu rhoi a'u rheoli yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd yng Nghompact y Comisiynydd â'r Trydydd Sector.

## Gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn o ansawdd uchel

Caiff cyfleoedd grantiau eu datblygu o ganlyniad i angen a nodwyd, wedi'i ategu gan ymchwil a thystiolaeth sy'n cefnogi'r canfyddiadau, ac sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau a'r canlyniadau a nodwyd yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu.

Caiff ceisiadau am arian eu hasesu yn erbyn cyfres glir a chyson o feini prawf y cytunwyd arnynt cyn gwahodd a/neu dderbyn ceisiadau, a bydd penderfyniadau i ddyfarnu grantiau yn seiliedig ar wybodaeth ffeithiol sydd ar gael.

Bydd penderfyniadau i gymhwyso telerau ac amodau at ddyfarniad grant yn seiliedig ar lefel y risg ganfyddedig, a dylent fod yn briodol ac yn gymesur â'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael ar adeg dyfarnu'r grant.

Caiff dyfarniadau grant eu monitro ar gyfer perfformiad a chydymffurfiaeth â thelerau ac amodau eu grant ac i sicrhau y caiff canlyniadau eu cyflawni fel y cytunwyd. Caiff y wybodaeth a gesglir ei gwerthuso a'i defnyddio i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a chefnogi diwylliant o welliant parhaus a dysgu.

## Annog mentrau rhagweithiol, arloesol a hygyrch

Pan fydd y ffynhonnell ariannu yn caniatáu hynny, dylai cyfleoedd grantiau a ddatblygwyd annog mentrau rhagweithiol, arloesol a hygyrch i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Bydd asesiadau o geisiadau am arian yn ystyried natur y fenter a gynigir, a lle y bo'n bosibl a phriodol, rhoddir blaenoriaeth i'r ceisiadau hynny sy'n dangos bod y fenter a fydd yn cyflawni'r canlyniadau dymunol yn rhagweithiol, yn arloesol ac yn hygyrch.

## Cyson, tryloyw ac atebol

Ni fydd prosesau rhoi a rheoli grantiau yn wahaniaethol a byddant yn gyson, gan sicrhau y caiff pob ymgeisydd a derbynnydd grant eu trin yn deg.

Cyhoeddir penderfyniadau i ddyfarnu grant ac ymrwymo i gytundeb grant eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

Caiff datganiadau buddiannau eu cwblhau a'u llofnodi gan bob aelod o staff sy'n rhan o'r broses o roi grant.

Bydd pob Swyddog ac aelod o Staff yn cymryd perchnogaeth a byddant yn gyfrifol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau sy'n ymwneud â dyfarnu a rheoli grantiau.

Bydd pob Swyddog ac aelod o Staff yn arfer eu barn broffesiynol ac yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ddeddfwriaeth y DU, Cyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd a pholisi a chanllawiau mewnol, lleol a chenedlaethol perthnasol, i sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei warchod yn gyfrifol.

## Cydnabod a pharchu anghenion, cyfraniad ac arbenigedd darparwyr gwasanaethau lleol

Caiff pob cyfle grant ei ystyried yn ofalus i sicrhau ei fod yn deg, yn rhesymol ac yn agored i bawb, gan gynnwys sefydliadau lleol bach.

Ni ddylai telerau ac amodau osod cyfyngiadau a fydd yn gwahardd ymgeiswyr rhag gwneud cais am grant na'i reoli.

Caiff Compact y Comisiynydd â'r Trydydd Sector ei ystyried a chaiff yr egwyddorion a amlinellir eu dilyn, er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfle grant yn cefnogi anghenion y Trydydd Sector.

## Syml a chymesur

Bydd y broses o roi a rheoli grantiau yn gymesur â chymhlethdod a swm yr arian sydd ar gael. Lle y bo'n briodol, defnyddir dulliau safonol a systemau cyffredin i leihau cymhlethdod.

Dylai ymgeiswyr a derbynwyr grant gael canllawiau a chyngor i'w helpu i ddeall y disgwyliadau a'r gofyniadau wrth wneud cais am arian gan swyddfa'r Comisiynydd, ei dderbyn a'i reoli.

Dylai'r broses ymgeisio ac adrodd fod mor syml â phosibl i dderbynwyr grant, gan sicrhau y caiff gwybodaeth ddigonol ei chasglu i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau ac atebolrwydd.

Rhaid i delerau ac amodau a gymhwysir at grantiau fod yn briodol ac yn gymesur â swm yr arian a lefel y risg ganfyddedig.

## Cydraddoldeb

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd, wrth gyflawni'r rôl, roi ystyriaeth i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Rhoddir ystyriaeth i'r dyletswyddau hyn, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn ystod pob cam o'r broses o roi a rheoli grantiau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i bennu meini prawf grant, asesu ceisiadau am grant, rhoi telerau ac amodau dyfarnu, gofynion monitro ac adrodd.

Caiff gwybodaeth am gydraddoldeb ei chasglu er mwyn asesu cydymffurfiaeth a chefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau.

## Yr Iaith Gymraeg

Cyflwynodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 safonau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ac mae'r Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn darparu'r safonau y mae'n ofynnol i'r Comisiynydd eu gweithredu ym mhob rhan o'r sefydliad.

Wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â dyfarnu grant, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:

- Pa effeithiau, os o gwbl (a ph'un ai cadarnhaol neu negyddol) y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a heb ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Sut y gellid gwneud y penderfyniad neu ei weithredu fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol / na fyddai'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a heb ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- P'un a oes angen gwybodaeth ychwanegol i asesu effeithiau dyfarnu'r grant ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a heb ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Comisiynydd wedi dangos ymrwymiad i fabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gynnar a chydymffurfio â hi yn llawn.

Rhoddir ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r effaith y bydd gwneud penderfyniadau yn ystod y broses o roi a rheoli grantiau yn ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru a'u dyfodol.

## Dogfennau cysylltiedig

Llawlyfr Llywodraethu gan gynnwys Rheolau Sefydlog Contract
Llawlyfr Grantiau
Compact y Comisiynydd â'r Trydydd Sector

## Monitro ac Adolygu

Caiff pob adran o'r Polisi hwn ei monitro gan y Swyddog Monitro

Caiff y polisi hwn ei adolygu gan y Swyddog Comisiynu, Grantiau a Cyllid bob dwy flynedd, neu yn achos unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth berthnasol neu reoliadau ariannol, p'un bynnag sydd gyntaf.

## Swyddfa Pwynt Cyswllt Unigol (SPOC) i gael rhagor o wybodaeth

**Swyddog Comisiynu, Grantiau a Cyllid**